

Amserlen ar gyfer trafod y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

Gorffennaf 2020

Ar 6 Gorffennaf, cafodd Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ei gyflwyno yn y Senedd.

Ar 15 Mehefin 2020, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg er mwyn iddo drafod yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

Ar 6 Gorffennaf 2020, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar amserlen i'r Pwyllgor drafod egwyddorion cyffredinol y Bil a chytuno y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 4 Rhagfyr 2020.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 5 Chwefror 2021, ar yr amod bod y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

